**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 7 MEDI 2023 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Jenny Jones, Elfyn Williams, Meinir James, Janet Knott, Eifion Jones, Philip Davies, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Nicola Jones, Viv Davies, Carys Thomas a Rheinallt Jones.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 6ed Gorffennaf 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
4. **FP29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
7. **Goleuedigaeth Sir Gaerfyrddin –** Derbyniwyd yr arwyddion cod QR. Cytunwyd i'w leoli, fel y teimlwyd yn briodol yn ardal panel hanes a phwmp y pentref yn Llandyfaelog.
8. **Gweithredu cyfyngiadau cyflymder 20mya –** Derbyniwyd e-bost gan yr Heddlu yn cadarnhau'r broses symud ymlaen ar gyfer gorfodi'r terfynau cyflymder newydd. Nodwyd.
9. **Damweiniau ym Mancycapel -** Roedd y Cyngor yn aros am ymateb i'r cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wrth yr Heddlu, roedd hyn wedi'i ohirio oherwydd materion adnoddau. Parhawyd i aros am ragor o wybodaeth gan y Cyngor Sir ar gynigion ar gyfer terfynau cyflymder ym Mancycapel.
10. **Gwylio Cyflymder Cymunedol -** Cadarnhaodd y Clerc fod y posibilrwydd o greu Gwyliad Cyflymder Cymunedol yn cael ei hysbysebu yn y Gymuned. Nodwyd.
11. **Bin Capel Rama –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.

12. **Digwyddiad Hyfforddi Diffibrilwyr –** Nodwyd bod y digwyddiad Hyfforddiant Diffibriliwr wedi bod yn noson lwyddiannus. Diolchwyd i Ambiwlans Sant Ioan am ddarparu'r hyfforddwr.
13. **Prosiect Ynni Bute** – Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd fel a ganlyn:
    - Ynni Bute ar y 19eg Gorffennaf mewn perthynas â'r Cynllun Budd Cymunedol.
    - Y Grid Cenedlaethol ar 29ain Awst mewn perthynas â chynlluniau lleoliad yr is-orsaf. Nodwyd byddai Ymgynghori Cymunedol yn dechrau ym mis Ionawr neu Chwefror a bod bwriad i gyflwyno'r cais cynllunio yn ystod Gwanwyn 2024.

    Cytunwyd i aros am ragor o wybodaeth cyn cymryd unrhyw gamau pellach ar y mater.
14. **Eglwys Santes Ann –** Nododd y Cadeirydd lwyddiant y te prynhawn i godi arian i'r Eglwys a gynhaliwyd ar y 29ain Gorffennaf. Nodwyd.
15. **Latch –** Nododd y Cadeirydd lwyddiant digwyddiad codi arian parti gardd ar gyfer yr Elusen a gynhaliwyd ar 8fed Gorffennaf. Nodwyd.
16. **Cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin Un Llais Cymru –** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Meinir James o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Gorffennaf. Nodwyd.
17. **Rhodd i CFfI Llanismel** – Derbyniwyd llythyr o ddiolch wrth y clwb. Nodwyd
18. **Ymweliad posib â Gwaith Trin Dŵr Carwe –** Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Cymuned Llangyndeyrn ei fod yn awyddus i ymuno â'r ymweliad. Bydd dyddiad addas i'r ddau Gyngor yn cael ei ceisio.
19. **Piben ddŵr Cwmffrwd yn gollwng o dan y ffordd yn Bolahaul –** Nodwyd bod hyn yn ymddangos yn broblem unwaith eto, bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau.

**6. Gohebiaeth**

1. **Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.
2. **Coedwigoedd Gorllewin Cymru –** Cylchlythyr. Nodwyd.
3. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
4. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** Cylchlythyr Calon Tan. Nodwyd.
5. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o Adolygiad o Ardaloedd a Mannau Pleidleisio i'w gynnal o fis Hydref. Bydd y Cyngor yn rhoi sylw pan ddaw'r ymgynghoriad ffurfiol i law.
6. **Heddlu Dyfed Powys -** Adroddiad Blynyddol 2022-23 y Panel Heddlu a Throseddu. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o daliad o 1/3 o braesept 2023-24 sef £8,460.00. Nodwyd.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cyfarfod Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref 14eg Medi 2023. Bydd Cyng Meinir James yn mynychu ar ran y Cyngor.
9. **Un Llais Cymru –** Cyfarfod Blynyddol a Chynhadledd ar 30ain Medi. Nodwyd.
10. **Un Llais Cymru –** Cyrsiau Hyfforddiant Awst a Medi. Nodwyd.
11. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
12. **Archwilio Cymru** - Ymgynghoriad ar Raddau Ffioedd 2024-25. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

Nododd y Clerc for y Cyngor wedi derbyn anfoneb am £28.35 mewn perthynas â TAW yn erbyn cyfanswm o £141.75 gan y cyfreithwyr oedd yn delio â'r hawliad am y tâl yswiriant ychwanegol oherwydd y ddamwain yng Nghae Idole. Roedd y Clerc yn ceisio cadarnhad beth oedd hyn yn ei gynrychioli.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Gorffennaf ac Awst gyda chyfanswm cost o £560.00 y mis, cymeradwywyd hyn. Cymeradwywyd taliad hefyd o £280.00 yr un ar gyfer Gorffennaf ac Awst ar gyfer gwaith a wnaed o dan y contract torri gwair yn Idole a Glanmorlais ar gyfer y flwyddyn 2023.

**9. Digwyddiadau Gymunedol 2023**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol yn 2023 fel a ganlyn:

- Cystadlaethau Gardd a Bwgan Brain;
  - Nododd y Cadeirydd lwyddiant digwyddiad a noson ddathlu 2023 yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog, nodwyd diolch y Cyngor i Farnwr y Gystadleuaeth a nhw wnaeth cynorthwyo i wneud y digwyddiad yn llwyddiant;
  - Cymeradwywyd y costau canlynol i'w had-dalu i'r Clerc:
    - Gwobrau £185.00
    - Tlysau £151.50
    - Bwffe £219.65
- Sul y Cofio – Nododd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda'r Ficer a oedd yn hapus i ddarparu Gwasanaeth o 2 o'r gloch ar y 12$^{th}$ Tachwedd. Cysylltwyd hefyd â Changen RBL Cydweli i ofyn am gadarnhad o ba gymorth y gallent ei ddarparu ar gyfer y Coffâd.

**10. Cynllunio**

**1. PL/06505 -** Portico ac amgylchyn drws newydd - Plas Glanrhydw, Pontantwn, Cydweli, Caerfyrddin, SA17 5NB. Dim gwrthwynebiadau.

**11. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Nododd y Cyng Philip Davies ei ddiddordeb yn y mater hwn.**
   **West Wales Dahlia Society –** Cytunwyd rhodd o £25.00.

**12. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| 1 / 2 | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Gorffennaf a chostau | £679.06 | £26.00<br>£7.00 | £712.06 | £281.40 | | £430.66 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Awst a chostau** | **£679.06** | **£26.00 £7.00 £23.40 £18.80 £556.15 (gweler eitem 9)** | **£1,310.41** | **£281.40** | | **£1,029.01** |

Nodwyd y costau a dalwyd gan y Clerc mewn perthynas â chostau'r digwyddiadau Cymunedol a bydd ateb posibl i'r mater yn cael ei cheisio.

| | | |
|---|---|---|
| **3. Michael Leefe** | **£280.00** | Torri gwair Gorffennaf ac Awst (gweler eitem 8) |
| **4. Michael Leefe** | **£560.00** | Taliad Gorffennaf ac Awst (gweler eitem 8) |
| **5. Vision ICT** | **£300.00** | £250.00 gyda TAW (costau wefan) |
| **6. West Wales Dahlia Society** | **£25.00** | Rhodd (gweler eitem 11) |

**13. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nodwyd bod Dilys Rees o Glanmorlais yn cyrraedd 100 oed ym mis Hydref, roedd trefniadau yn cael eu gwneud fod yna ymweld gan Gadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Sir a Chynghorwyr Sir i nodi penblwydd Mrs. Rees.
2. Nodwyd bod Digwyddiadau Cymunedol mis Medi yn cynnwys:
   a. Sioe Llandyfaelog – 9fed Medi;
   b. Helfa Drysor a Barbeciw'r Neuadd – 15fed Medi;
   c. Noson Gwis er budd Apêl Tŵr yr Eglwys – 29ain Medi .
3. Nodwyd ei bod yn ymddangos bod biniau yn y Gymuned wedi methu cael eu casglu yn ddiweddar.
4. Nodwyd tipio anghyfreithlon o amgylch Pont Rhydyronnen. Roedd y Cyng Meinir James yn ymchwilio'r mater oherwydd anghytundeb rhwng elusennau mewn perthynas â chyfrifoldebau.
5. Llongyfarchwyd 5 aelod o Glwb Bowls Mat Byr Llandyfaelog a ddewiswyd i gynrychioli tîm Merched Cymru ar y 7fed Hydref. Bydd llythyrau yn cael eu hanfon at yr aelodau, Shan Rees, Andrea Bennett, Janet Davies, Llinos Jones a Caroline Stiles.
6. Nodwyd bod fethiant yn casgliadau bagiau du ar ffordd rhwng Cilfeithy Uchaf a Glanmorlais.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 5ed Hydref 2023.**